

POLISI GWRTH DWYLL, LLWGRWOBRWYAETH A LLYGREDD



Dyddiad Cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb:	28 Mehefin 2021
Haen Cymeradwyo Polisi:	Haen 2 - Pwyllgor Archwilio
Dyddiad Cymeradwyo:	6 Gorffennaf 2021
Awdur:	Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio Ariannol)
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2024
Dyddiad Ianlwytho i wefan/mewnrwyd y Coleg:	I'w gadarnhau

Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais

Efallai na fydd y cofnod hwn yn gyfredol os yw wedi ei argraffu

Eitem	Tudalen
Rhagair gan Fwrdd y Llywodraethwyr	1
Beth yw Twyll, Llwgrwobrwyath a Llygredd? - Diffiniadau	2
Datganiad Polisi	4
Atal Twyll, Llwgrwobrwyath a Llygredd	5
Adrodd am Dwyll, Llwgrwobrwyath a Llygredd	6
Cysylltiadau Defnyddiol	9
Polisiâu a dogfennau cysylltiedig	10

RHAGAIR

Ni fydd Coleg Gwent yn derbyn unrhyw lefel o dwyll, llwgrwobrwyath na Llygredd. Rydym yn ymroddedig i ddiogelu ein hasedau ac yn ymroddedig i onestrwydd a chywirdeb ym mhob un o'n gweithgareddau. Mae'r Coleg yn benderfynol y bydd yn rhwystro, atal a chanfod pob math o dwyll, llwgrwobrwyath a Llygredd a gyflawnir yn ei erbyn, p'un a yw hynny'n gan bartïon mewnol neu allanol.

Mae'r Coleg yn ymroddedig i sicrhau y cyflawnir ei fusnes i gyd mewn modd agored, onest a theg. Disgwylir i bob llywodraethwr, staff a thrydydd partiïon sy'n gweithio ar ran y Coleg fabwysiadu'r safonau uchaf o gywirdeb ac atebolrwydd, ac i chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo diwylliant gwrth dwyll, llwgrwobrwyo a Llygredd.

Ymchwiliwr yn drwyadl i bob achos o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd a delio â'r mater yn briodol. Bydd y math o weithredu yn ddibynnol ar lefel ac amgylchiadau'r twyll a ganfuwyd a gall gynnwys gweithdrefnau disgyblu, diswyddo ac/neu erlyniad troseddol. Bydd y Coleg yn ceisio adfer arian a gollwyd trwy dwyll ar bob adeg.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob llywodraethwr, yr holl staff, p'un a ydynt yn barhaol neu dros dro, a phob trydydd parti sy'n gweithio ar ran y Coleg.

Disgwylir i'r holl Lywodraethwyr a staff ymddwyn yn unol â Gwerthoedd ac Ymddygiadau Craidd y Coleg, Cod Ymddygiad y Coleg a'r egwyddorion "Nolan" sy'n ategu'r diwylliant gwrth dwyll ac sy'n seiliedig ar y Saith Egwyddor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus canlynol

Anhunanoldeb - dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teuluoedd neu ffrindiau elwa'n ariannol neu elwa mewn ffordd arall.

Uniondeb - ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu unrhyw ddyled arall i sefydliadau neu unigolion allanol a allai geisio dylanwadu ar eu cyflawniad o'u dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd - wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

Atebolrwydd - mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag graffu cyhoeddus sy'n addas i'w rôl.

Bod yn Agored - dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a chamau a gymerant. Dylent roi rhesymau clir am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar yr wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd (neu ddeddfwriaeth).

Gonestrwydd - mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

Arweinyddiaeth - dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

Ceisio'r polisi hwn ddiffinio twyll, llwgrwobrwyath a Llygredd; mae'n amlygu'r rheoliadau ataliol sy'n weithredol i drechu twyll, llwgrwobrwyath neu lygredd gan esbonio sut i adrodd amheuan o ymddygiad o'r fath.

Mr Mark Langshaw MBE
Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr

Mr Guy Lacey
Pennaeth/Prif Weithredwr

1. BETH YW TWYLL, LLWGRWOBRYAETH A LLYGREDD?

Diffiniad o Dwyll

Ar gyfer dibenion y polisi hwn, diffinnir twyll fel defnyddio ystryw i amddifadu, creu anfantais neu achosi colled i berson neu barti arall. Gall hyn gynnwys lladrad, camddefnydd o gronfeydd neu adnoddau eraill neu droseddau mwy cymhleth fel cyfrifyddu anwir a darparu gwybodaeth anwir neu gamliwiad.

Cyflwynodd Deddf Twyll 2006 dair prif drosedd. Maent fel a ganlyn:

Trosedd	Enghraifft
Twyll trwy ymholiad anwir	dweud celwydd ar CV i sicrhau cyflogaeth
Twyll trwy gamddefnyddio swydd	rheolwr cyllid yn defnyddio ei safle i embeslu arian
Twyll trwy fethiant i ddatgelu gwybodaeth	peidio datgan collfarn droseddol heb ddarfod er mwyn sicrhau cyflogaeth

Byddai enghreifftiau o dwyll a allai ddigwydd yn y Coleg yn cynnwys (nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol nac yn allgynhwysol ac fe ddelir â throseddau eraill o natur debyg dan y polisi hwn):

- ffugiad hawliadau costau neu hawliadau cyflog
- camddefnyddio hawl i wyliau blynyddol
- lladrata arian neu asedau neu stoc arall y coleg
- ffugiad anfonebau neu gofnodion eraill i gaffael taliad
- methiant i roi cyfrif am arian neu anfonebau a dalwyd
- camddefnydd o'r cynllun salwch
- defnydd heb awdurdod o eiddo neu offer y coleg
- defnydd amhriodol o gyfleusterau, eiddo neu offer y coleg ar gyfer elw personol
- cyflawni gweithgareddau cyflogaeth eraill neu fod yn absennol fel arall heb awdurdod yn ystod oriau cytundebol y coleg
- ffugio hawliadau/cofnodion canlyniad dysgwr
- ffugio cymwysterau i sicrhau cyflogaeth
- methiant i ddatgelu budd personol mewn busnes y mae'r coleg yn ei gontractio am wasanaethau neu gyflenwadau. Gweld para 20.2

Bydd unigolyn sy'n cyflawni twyll un wynebu camau disgyblu, gweithredu sifil a/neu erlyniadau troseddol. Os ceir yr unigolyn yn euog o dwyll mewn llys troseddol, gall dderbyn dedfryd o garchar am hyd at ddeng mlynedd. Gallai unigolyn hefyd gael ei ddiddymu oddi ar y gofrestr os yw'n aelod o gorff proffesiynol.

Diffiniad o Lwgrwobrwyath

Llwrwobrwyath yw cynnig, addo, rhoi, derbyn neu geisio mantais fel cymhelliad am weithred sy'n anfoesol, anghyfreithlon neu'n dor-yymddiriedaeth. Nid oes rhaid i lwgrwobrwyath gynnwys arian parod neu daliad yn cyfnewid dwylo a gall fod ar sawl ffurf (fel triniaeth hael yn ystod taith fusnes neu docynnau i ddigwyddiad er mwyn sicrhau contract).

Dydy llwgrwobrwyath ddim yn arwain at golled bob tro. Efallai na fydd yr unigolyn llygredig yn elwa'n uniongyrchol o'i weithredoedd; fodd bynnag, efallai ei fod yn defnyddio ei safle'n afresymol i sicrhau rhyw fantais neu'i gilydd.

Mae Deddf Llwrwobrwyath 2010 yn darparu'r pedair prif drosedd:

- rhoi neu gynnig llwgrwobr
- derbyn neu ofyn am lwgrwobr
- llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor (a elwir yn daliadau hwyluso hefyd)

- methu ac atal llwgrwobr trwy esgeulustod (trosedd gorfforaethol)

Dan y Ddeddf Llwgrwobrwyath, mae'n bosibl y bydd trosedd wedi ei chyflawni hyd yn oed os nad oes unrhyw arian na nwyddau wedi eu cyfnewid ac nid oes isafswm werth i lwgrwobr.

Gallai unigolion sy'n cyflawni llwgrwobrwyath yn erbyn y Coleg wynebu erlyniad troseddol, gweithredu sifil, camau disgyblu a/neu ddiddymu oddi ar y gofrestr (os yw'r unigolyn yn aelod o gorff proffesiynol). Os ceir yn euog o lwgrwobrwyath, gallai'r unigolyn dderbyn dedfryd o ddeng mlynedd o garchar a dirwyon anghyfyngedig.

Diffiniad olygredd

Gall Llygredd gael ei ystyried i fod yn derm hollgynhwysol i ddisgrifio ffurf o anonestrwydd neu dramgwydd troseddol a gyflawnir gan unigolyn neu sefydliad a ymddiriedir gyda safle o awdurdod, er mwyn ennill buddion anghyfreithlon neu gam-drin pŵer i gael mantais. Gall hyn gynnwys twyll a llwgrwobrwyath.


Gwyngalchu Arian

Gall gweithgareddau anghyfreithlon a thwyllodrus fel y rhai a ddisgrifir uchod gynnwys Gwyngalchu Arian. Dyma'r broses o wneud i symiau mawr o arian sydd wedi ei sicrhau trwy droseddau, fel masnachu cyffuriau, ymddangos i fod wedi dod gan ffynhonnell gyfreithlon.

Er bod y coleg yn credu bod y risg o wyngalchu arian yn ei weithredoedd yn isel, dylai staff allweddol fod yn arbennig o effro i sefyllfaoedd ble bydd arian yn llifo try'r Coleg o ffynonellau anghyfarwydd; ble sefydlir perthnasau busnes newydd neu ble odi trafodion untro arwyddocaol.

Mae gwyngalchu arian yn broses benodol a chymhleth a bydd angen i staff mewn rolau trin arian parod/rheoli'r trysorlys fod yn arbennig o effro i'r potensial o wyngalchu arian. Dylai staff edrych ar ganllawiau'r coleg ar atal gwyngalchu arian (Polisi Rheoli'r Trysorlys - TMP9) a dylid cyfeirio unrhyw amheuaeth bod tystiolaeth o wyngalchu arian yn y coleg ar unwaith i'r Cyfarwyddwr Cyllid neu Ddirprwy Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio).

2. DATGANIAD POLISI



Mae Coleg Gwent yn ymroddedig i gyflawni ei waith gyda gonestrwydd a chywirdeb ac mewn modd cyfrifol a thryloyw. Disgwylwn i'r holl lywodraethwyr, staff a'r rhai sy'n gweithio i ni gynnal safonau ymddygiad uchel yn unol â'n Gwerthoedd Craidd fel yr amlinellir uchod a'n Codau Ymddygiad i Lywodraethwyr, Staff a *Phartneriaid*.

Mae Coleg Gwent yn gwerthfawrogi ei enw da am ymddygiad moesegol ac ar gyfer cywirdeb a dibynadwyedd ariannol. Rydym yn ymdrechu i wasanaethu ein dysgwyr hyd eithaf ein gallu, yn agored ac yn onest. Bydd unrhyw ymwneud mewn llwgrwobrwyfaeth, Llygredd a thwyll yn adlewyrchu'n niweidiol ar ein delwedd ac enw da, ac ni fyddwn yn goddef ymddygiad o'r fath. Er mwyn cynnal ymddiriedaeth ein dysgwyr a phartneriaid ynghyd â'n henw da arbennig, rydym:

- Wedi sefydlu polisi atal llwgrwobrwyo, Llygredd a thwyll clir.
- Yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i'r holl weithwyr er mwyn iddynt allu cydnabod ac osgoi defnydd o lwgrwobrwyo ganddynt eu hunain ac osgoi unrhyw weithgaredd y gellir ei bennu i fod yn llwgr a/neu dwyllodrus.
- Yn annog staff i fod yn wylidwrus ac i adrodd am unrhyw amheuan o lwgrwobrwyo, Llygredd neu dwyll, gan ddarparu ffrydiau addas ar gyfer cyfathrebu a sicrhau od gwybodaeth sensitif yn cael ei thrin yn briodol.
- Yn ymchwilio'n drylwyr i unrhyw achosion o'r fath o gamymddwyn honedig a chynorthwyo'r heddlu ac awdurdodau priodol eraill mewn unrhyw erlyniad sy'n dilyn.
- Yn cymryd camau pendant a grymus yn erbyn unrhyw unigolyn neu unigolion sy'n ymwneud â llwgrwobrwyfaeth, Llygredd neu dwyll.

3. ATAL TWYLL, LLWGRWOBRYAETH A LLYGREDD

Mae'r Coleg yn gweithredu o fewn fframwaith cadarn o ymddygiad disgwylidig a rheolaeth fewnol sy'n cynnwys gwerthoedd ac ymddygiadau, y cod ymddygiad a systemau a gweithdrefnau, yn cynnwys Archebion Sefydlog a Rheoliadau Ariannol a'r polisi a gweithdrefn caffael. Mae'r rhain wedi eu cynllunio'n rhannol er mwyn atal twyll a Llygredd ac i hybu atebolrwydd. Rydym yn gofyn i lywodraethwyr, staff a thrydydd partion sy'n gweithio ar ein rhan weithredu yn unol â'r fframwaith hon.

Mae gan y Coleg systemau a gweithdrefnau sy'n ymgorffori rheoliadau mewnol cadarn a gynlluniwyd i leihau'r risg y gall twyll, llwgrwobrwyath a Llygredd ddigwydd. Gofynnir i reolwyr nodi'r risgiau y mae systemau yn agored iddynt (gan gynnwys y risg o dwyll), i ddatblygu a chynnal rheoliadau i liniaru a rheoli'r risgiau ac i sicrhau y cydymffurfir yn briodol â rheoliadau o'r fath. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi twyll a seiberdroseddau fel risgiau allweddol i'r Coleg ac yn cyflwyno'r camau lliniaru sy'n weithredol i leihau'r risg. Mae gwasanaeth Archwiliad Mewnol y Coleg yn adolygu digonoldeb ac effeithiolrwydd rheoliadau mewnol, yn rhan o'u rhaglen archwilio flynyddol, i ddarparu sicrwydd i reolwyr, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio.

Mesur ataliol allweddol i leihau'r risg o dwyll a Llygredd yw cymryd camau effeithiol yn y cam recriwtio i sefydlu, cyn belled ag y bo modd, y cofnod blaenorol o ddarpar staff o ran eu priodoldeb a'u cywirdeb. Yn hyn o beth, dylid trin staff dros dro yn yr un modd â staff parhaol. Dylai recriwtio staff fod yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y polisiâu AD perthnasol, a dylid cael tystlythyrau ysgrifenedig cyn gwneud cynigion cyflogaeth ffurfiol.

Rhaid i Gyfarwyddwyr a Deiliaid Swyddi Uwch:

- ddatgelu manylion unrhyw sefydliadau y mae ganddynt safle o awdurdod neu ddiddordeb perthnasol arall ynddynt ac y gallai eu busnes ddod â nhw i gysylltiad â'r Coleg.
- Datgelu unrhyw drafodion rhwng y Coleg a phartion sy'n gysylltiedig â hwy.









Er mwyn lleihau'r risg o lwgrwobrwyo a Llygredd, mae'r Coleg wedi mabwysiadu'r polisi canlynol ar roddion a lletygarwch:

- Rhaid peidio â derbyn rhoddion heb frand hyd at werth o £100 heb ganiatâd y Cyfarwyddwr priodol a gellir derbyn rhoddion uwchlaw gwerth £100 dim ond gyda chaniatâd y Pennaeth/Prif Weithredwr. Rhaid rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cyllid am bob rhodd/lletygarwch o'r fath i'w gynnwys yn y Gofrestr Anrhegion Corfforaethol a Lletygarwch. Gellir derbyn eitemau brand bach fel beiros, calendrau ac ati hyd at werth amcangyfrifedig o £25. Bydd y Gofrestr yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio yn flynyddol.
- Mae'r Coleg yn ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn sy'n cyflogi cyflenwyr gwasanaethau ac yn gweithio gyda phartneriaid ar ran y Coleg sicrhau bod cyflenwyr gwasanaeth a phartneriaid yn cael eu dewis trwy broses ddethol dryloyw a chystadleuol ac y cyflawnir diwydrwydd dyladwy ar bartneriaid a chyflenwyr cyn ymrwymo i gontractau. Nodir rhagor o wybodaeth yn Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol y Coleg.
- Rhaid i'r holl staff a chyflenwyr ddeall a chydymffurfio â'r polisi Gwrth-dwyll, Llwgwrwobrwyath a Llygredd hwn. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyfathrebu, mae'r Coleg yn cyhoeddi'r polisi hwn ar y fewnrwyd staff ac ar ei wefan ac yn cyfleu ei bwysigrwydd trwy sesiynau briffio Mewn Cysylltiad i'r holl staff.
- Mae'r holl staff yn cael eu monitro yn erbyn gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant statudol rheolaidd sy'n cynnwys:
 - Hanfodion Gwrth-Lwgrwobrwyo
 - Hanfodion Chwythu'r Chwiban - Adrodd Twyll a Chamymddwyn
 - Hanfodion Diogelwch Gwybodaeth (Seiberddiogelwch)

4. ADRODD AM DWYLL, LLWGRWBRWYAETH A LLYGREDD

Canllaw Cyflym i Adrodd am Bryder

A oes gennych bryderon ynghylch twyll, llwgrwobrwyath neu lygredd yn digwydd yn y Coleg?

DYLECH	NI DDYLECH
 Nodwch eich pryderon - cofnodwch fanylion fel eich pryderon, enwau, dyddiadau, amseroedd, manylion sgyrsiau, ffotograffau, sgrinluniau, e-byst, ffynonellau cyfryngau eraill a thystion posib. Cofnodwch yr amser, dyddiad a llofnodi'ch nodiadau	 Fynd at y sawl a amheuir na chyfleu pryderon i unrhyw un heblaw'r rhai awdurdodedig. Peidiwch byth â cheisio cwestiynu rhywun sydd dan amheuaeth eich hun; gallai hyn dynnu sylw twyllwr neu gyhuddo person diniwed
 Gadw tystiolaeth - cadwch unrhyw dystiolaeth ond dim ond os ydych chi'n ofni y gallai gael ei dinistrio, neu wneud nodyn a chynghori'ch rheolwr llinell neu berson priodol	 Geisio ymchwilio neu gysylltu â'r heddlu yn uniongyrchol. Peidiwch byth â cheisio casglu tystiolaeth eich hun oni bai ei fod ar fin cael ei dinistrio; rhaid i gasglu tystiolaeth ystyried gweithdrefnau cyfreithiol er mwyn bod yn ddefnyddiol
 Adrodd am eich amheuron Fe berchir eich cyfrinachedd - gallai oedi arwain at golledion ariannol pellach	 Fod ofn mynegi eich pryderon Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr sydd â phryderon rhesymol; ni fyddwch yn dioddef gwahaniaethu nac erledigaeth trwy ddilyn y gweithdrefnau cywir
 Peidiwch â chynhyrfu	 Peidiwch â defnyddio'r broses i fynd ar drywydd achwyniad personol.

Sut fedra i adrodd am amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyath neu lygredd yn digwydd yn y Coleg?

Yn y lle cyntaf, fel rheol dylech chi godi'r pryder gyda'ch rheolwr llinell.

OND os:

- yw'r pryder yn ymwneud â'ch rheolwr llinell, yna dylech ei godi gyda Chyfarwyddwr
- yw'n ymwneud â Chyfarwyddwr; dylid codi'r pryder gydag Is-Bennaeth.
- yw'r mater yn ymwneud ag Is-Bennaeth, dylid codi'r pryder gyda'r Prifathro/Prif Weithredwr
- yw'n ymwneud â'r Prifathro/Prif Weithredwr, dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethol
- yw'n ymwneud â Chadeirydd y Corff Llywodraethol, dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Beth ddylai staff ei wneud os ydyn nhw'n amau twyll

- i. Anogir staff ac, yn wir, mae disgwyl iddyn nhw godi unrhyw bryder sydd ganddyn nhw, heb ofni gwrthgyhuddo. Er mwyn hwyluso hyn, mae gan y Coleg [Bolisi Chwythu'r Chwiban](#). Bydd unrhyw bryderon a godir yn cael eu trin yn hollol gyfrinachol ac yn cael eu hymchwilio'n iawn.
- ii. Yn aml, staff yw'r cyntaf i sylwi ar achosion posibl o dwyll neu lygredd yn gynnar. Ni ddylai staff geisio cynnal ymchwiliad eu hunain. Gall hyn niweidio unrhyw ymholiad dilynol.
- iii. Yn y lle cyntaf, fel rheol dylai staff godi'r pryder gyda'u rheolwr llinell. Os yw'r pryder yn ymwneud â rheolwr llinell, yna dylai'r staff ei godi gyda chyfarwyddwr, ac os yw'n ymwneud â chyfarwyddwr, dylid codi'r pryder gydag Is-Bennaeth. Os yw'r mater yn ymwneud â'r Is-Bennaeth yna'r Prifathro/Prif Weithredwr. Os yw'r mater yn ymwneud â'r Prifathro/Prif Weithredwr, dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr, ac os yw'n ymwneud â Chadeirydd y Llywodraethwyr dylid codi'r pryder gyda Chadeirydd y Pwyllgorau Archwilio.
- iv. Pan fydd staff yn cael anhawster mynd at eu rheolwr eu hunain, oherwydd bod pryder bod naill ai rheolwyr yn cymryd rhan neu ddim yn cymryd y mater o ddifrif, gallant gysylltu, trwy'r Swyddog Llywodraethu, â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio neu Gadeirydd y Llywodraethwyr. Gallant hefyd gysylltu â Protect neu Action Fraud (manylion ar dudalen ??).

Beth ddylai trydydd parti ei wneud os ydyn nhw'n amau twyll

- i. Gall trydydd parti'on roi gwybod am bryderon trwy weithdrefn cwynion corfforaethol y Coleg sydd i'w gweld ar wefan y Coleg. Gallant hefyd adrodd ar bryderon yn uniongyrchol i aelodau neu staff y Coleg, a fydd yn uwchgyfeirio'r pryder yn unol â'r Polisi Gwrth-Dwyll, Llwgwrwbrwaeth a Llygredd.
- ii. Os bydd rhywun yn teimlo na all godi ei bryderon yn uniongyrchol gyda'r Coleg, gall gysylltu ag archwilydd mewnol neu allanol y Coleg, y gellir dod o hyd i'w enw a'i gyfeiriad yng nghyfrifon cyhoeddedig y Coleg.
- iii. Gall unrhyw un sy'n poeni am gamwedd sy'n bygwth budd y cyhoedd ofyn am gymorth cyfreithiol cyfrinachol am ddim gan yr elusen 'Protect' neu fel arall gallant gysylltu â'r elusen Action Fraud. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer y ddau sefydliad ar ddiwedd y polisi hwn
- iv. Nid yw'n hawdd siarad yn erbyn gweithredoedd twyll. Bydd y Coleg yn cymryd pob rhagofal i amddiffyn hunaniaeth unigolyn wrth godi pryder os nad yw am i'w enw gael ei ddatgelu. Er y cymerir pob ymdrech bosibl i amddiffyn hunaniaeth unigolyn, rhaid gwerthfawrogi, fodd bynnag, y gall y broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell yr wybodaeth ac efallai y bydd angen datganiad gan yr unigolyn fel rhan o'r dystiolaeth.
- v. Mae'r Coleg yn annog unigolion i gyflwyno eu henwau gyda honiadau. Mae pryderon a fynegir yn ddienw yn llawer llai pwerus, ond fe'u hystyrir yn ôl disgrisiwn y Coleg, gan ystyried difrifoldeb y materion a godwyd; hygrededd y pryder; a'r tebygolrwydd o gadarnhau'r honiad gan ffynonellau eraill y gellir eu priodoli.

Beth ddylai rheolwr ei wneud pan fydd amheuaeth yn cael ei adrodd iddo?

- i. Rhaid i unrhyw reolwr sydd wedi derbyn gwybodaeth am dwyll a amheuir neu amheuaeth o lygredd ei adrodd ar unwaith i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r cyfarwyddwr perthnasol a fydd, lle bo hynny'n briodol, yn sicrhau bod y Prifathro/Prif Weithredwr a'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn cael eu hysbysu.


- ii. Dylai'r cyfarwyddwr perthnasol, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid, fodloni ei hun bod sail resymol i'r amheuaeth, a threfnu i ymchwiliad gael ei gynnal. Dylai'r ymchwiliad gael ei aseinio i berson sydd â phrofiad neu gymwysterau priodol. Ar yr adeg hon dylid hysbysu'r Cyfarwyddwr AD a Datblygu Sefydliadol o'r ymchwiliad. Gwneir unrhyw benderfyniad i gyfeirio'r mater at yr Heddlu mewn ymgynghoriad â'r Prifathro/Prif Weithredwr ac Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio).
- iii. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn cofnodi adroddiadau o dwyll a amheuir/gwirioneddol mewn Cofrestr Twyll ganolog.
- iv. Dylai'r rheolwyr weithredu ar unwaith i atal colled bellach, a dylent gymryd camau i ddiogelu unrhyw dystiolaeth.
- v. Dylai'r swyddog ymchwilio gadw unrhyw ddogfennaeth berthnasol yn ddiogel, yn ei fformat gwreiddiol - ni ddylid ysgrifennu arni na'i newid mewn unrhyw ffordd. Argymhellir cadw dogfennau mewn waledi plastig. Rhaid diogelu eitemau neu offer eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad heb unrhyw newid i'w cyflwr gwreiddiol, er enghraifft, cyfrifiaduron personol ac unrhyw gofnodion arnynt.
- vi. Gallai canlyniad terfynol ymchwiliad arwain at ymddangosiad llys. Felly mae'n bwysig bod yr ymchwiliad yn gallu gwrthsefyll trylwyredd croesholi. Mae tystiolaeth yn hanfodol, a dylai'r swyddog ymchwilio gadw tystiolaeth ar ffurf sy'n dderbyniol yn gyfreithiol.
- vii. Dylid cadw cofnod manwl o'r ymchwiliad. Dylai hyn gynnwys ffeil gronolegol sy'n cofnodi manylion sgysrsiau ffôn, trafodaethau, cyfarfodydd a chyfweliadau, manylion y dogfennau a adolygwyd, a manylion unrhyw brofion a dadansoddiadau a gynhaliwyd.
- viii. Dylid cynnal pob cyfweliad mewn modd teg a phriodol. Pan fo posibilrwydd o erlyniad troseddol, dylid ceisio cyngor gan yr heddlu i sicrhau bod gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) yn cael eu bodloni. Dylai'r swyddog ymchwilio ofyn am gyngor gan y Cyfarwyddwr (AD a Datblygu Sefydliadol) cyn cynnal unrhyw gyfweliadau.
- ix. Bydd y Cyfarwyddwr (AD a Datblygu Sefydliadol) yn darparu cyngor ar y camau sydd eu hangen i sicrhau unrhyw arian parod a thystiolaeth, a bydd yn cynghori ar weithdrefnau disgyblu, yn enwedig lle gallai fod angen atal staff.
- x. Ni ddylid datgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw un heblaw'r grŵp bach o uwch reolwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r ymchwiliad.
- xi. Ni ddylid datgelu unrhyw wybodaeth i'r wasg na'r cyfryngau. Y cyfarwyddwr perthnasol fydd yn gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth i'r cyfryngau, mewn ymgynghoriad â'r Prifathro/Prif Weithredwr, trwy dimau Cyfathrebu/Marchnata'r Coleg.

Archwiliad Mewnol


- i. Cyfrifoldeb y tîm rheoli yw cynnal systemau a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n iawn ar gyfer gweithgareddau cymeradwy. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am atal a chanfod twyll a gweithredoedd anghyfreithlon eraill. Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried y posibilrwydd o gamwedd o'r fath a dylai geisio nodi diffygion difrifol mewn rheolaeth fewnol a allai ganiatáu i ddigwyddiadau o'r fath ddigwydd. Dylai'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) gynghori'r darparwr archwilio mewnol am unrhyw ddarganfyddiad neu amheuan o dwyll. Yn yr un modd dylai'r darparwr archwilio mewnol hysbysu'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) pe bai staff archwilio mewnol yn darganfod tystiolaeth neu amheuaeth o dwyll.

5. CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL


Action Fraud

<p>Action Fraud yw canolfan adrodd genedlaethol y Deyrnas Unedig ar gyfer twyll a seiberdroseddu lle dylech adrodd am dwyll os cawsoch eich sgamio, twyllo neu brofi troseddau seiber yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon</p>	
--	--


Archwilydd Cyffredinol Cymru

<p>Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cael ei ddsbarthu fel person a ragnodwyd at ddibenion Chwythu'r Chwiban. Mae hyn yn golygu y gall gweithiwr adrodd ar bryderon ynghylch camwedd mewn gweithle i'r Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal â'u cyflogwr, neu yn lle hynny.</p> <p>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried bob datgeliad y mae'n ei dderbyn, ond nid oes rheidrwydd arno i ymchwilio.</p>	<p>E-bost: whistleblowing@audit.wales Ffôn: 029 20 320 522 Post: Swyddog PIDA Archwilydd Cyffredinol Cymru 24 Heol y Gadeirlan Caerdydd CF11 9LJ</p> 
---	--

Protect

<p>Protect (Pryder Cyhoeddus yn y Gwaith gynt) yw elusen chwythu'r chwiban y Deyrnas Unedig. Nod yr elusen yw atal niwed trwy annog chwythu'r chwiban yn ddiogel. Maent yn darparu llinell gyngor gyfrinachol am ddim sy'n cefnogi mwy na 3,000 o chwythwyr chwiban bob blwyddyn sydd wedi gweld camymddwyn, risg neu gamwedd yn y gweithle.</p> <p>Fe'ch cynghorir i gymryd cyngor cyfreithiol annibynnol cyn gwneud datgeliadau y tu allan i'r Coleg gan mai dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y cewch eich amddiffyn yn gyfreithiol.</p>	<p>https://protect-advice.org.uk/contact-protect-advice-line/</p> <p>PROTECT The Green House 244-254 Cambridge Heath Road Llundain E2 9DA</p> 
--	--

Llywodraeth Cymru fel Prif Reoleiddiwr elusennau eithriedig

<p>Dynodir Colegau Addysg Bellach yn elusennau eithriedig o dan Atodlen 3 Deddf Elusennau 2011.</p> <p>Yng Nghymru, mae Gweinidog Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel Prif Reoleiddiwr i'r Colegau AB, i hyrwyddo cydymffurfriad â'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Elusennau 2011</p>	<p>The role of the Welsh Ministers as the Principal Regulator of exempt charities</p> <p>Welsh Further Education Corporations and St David's Catholic Sixth Form College</p> 
--	--

6. POLISI'AU A DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Rheoleiddio a Chyfundrefnau Ariannol
- Polisi Disgyblu
- Polisi Rheoli'r Trysorlys
- Polisi Treuliau a Buddion
- Polisi Recriwtio
- Cod Ymddygiad Staff
- Gwerthoedd ac Ymddygiadau Craidd